

COFLEISIO ARLOESEDD YN EICH TÎM

Wedi'i
Ariannu'n
Llawn*

MSc RHEOLI ARLOESEDD RHYNGWLADOL

Modiwlau:

- » Cyflwyniad i Reoli Arloesedd
- » Rheoli Datblygiad Cynhyrchion Newydd
- » Rheoli Arloesedd Rhyngwladol
- » Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0
- » Cynllunio a Rheolaeth Ariannol
- » Dulliau Ymchwil a Datblygiad Proffesiynol
- » Prif Brosiect / Traethawd Hir



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Rhowch arloesedd wrth galon eich gyrfa

Arloesedd yw'r elfen sy'n sbarduno ymchwil a datblygu, dylunio, gweithgynhyrchu, marchnata a datblygu busnes. Mae ein rhaglen lawn o gyrsiau meistr wedi'i datblygu er mwyn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr o'r modd y gall rheoli arloesedd wneud gwahaniaeth i bobl, sefydliadau a chwsmeriaid.

Mae'r rhaglen yn cynnwys y modiwlau canlynol:

» **Cyflwyniad i Reoli Arloesedd (Lefel 7, 20 Credyd)**

Cewch ddiffinio geirfa graidd o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag arloesi, ynghyd â phennu camdybiaethau a gysylltir yn aml ag arloesi a darganfod fframweithiau ar gyfer rheoli'r broses arloesi.

» **Rheoli Datblygiad Cynhyrchion Newydd (Lefel 7, 20 Credyd)**

Cewch reoli gwaith arloesi llwyddiannus mewn perthynas â chynhyrchion a gwasanaethau, ac ystyried dulliau amgen o ddatblygu cynhyrchion newydd yn seiliedig ar ystyriaethau strategol ac ystyriaethau busnes.

» **Rheoli Arloesedd Rhyngwladol (Lefel 7, 20 Credyd)**

Cewch ddealltwriaeth gynhwysfawr o brosesau arloesi rhyngwladol, modelau busnes, technolegau, y pethau sy'n sbarduno gweithgynhyrchu, ac ystyriaethau byd-eang sy'n dod i'r amlwg.

» **Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0 (Lefel 7, 20 Credyd)**

Cewch ddysgu am dechnolegau priodol Diwydiant 4.0 a sut y gellir eu defnyddio yn eich busnes i esgor ar fudd economaidd.

» **Cynllunio a Rheolaeth Ariannol (Lefel 7, 20 Credyd)**

Cewch ddadansoddi cysyniadau ariannol a chyfrifyddu mewn modd beirniadol, ynghyd â deall prosesau dadansoddi datganiadau ariannol a dysgu am y prif ddamcaniaethau sy'n perthyn i gyllid corfforaethol.

» **Dulliau Ymchwil a Datblygiad Proffesiynol (Lefel 7, 20 Credyd)**

Cewch ddatblygu dull o ymdrin ag ymchwil lle canolbwyntir ar ddatrys problemau, ynghyd â llunio cynigion prosiectau a gwerthuso'r broses ymchwil yn feirniadol.

» **Prif Brosiect / Traethawd Hir (Lefel 7, 60 Credyd)**

Datblygwch eich gwybodaeth trwy gynnal a rheoli prosiect o bwys o'ch dewis eich hun – sef prosiect yn ymwneud yn uniongyrchol â'ch sefydliad ac a fydd o fudd i'ch sefydliad. Gydag arweiniad a chymorth eich goruchwylydd academiaidd, bydd hwn yn gyfle ichi ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd yn y modiwlau eraill a'u rhoi ar waith mewn pwnc 'bywyd go iawn' o'ch dewis, o fewn y maes Rheoli Arloesedd.

Dysgu mwy am ein rhaglen lawn o gyrsiau meistr

I gael manylion llawn am bob modiwl yn ein cwrs MSc a ariennir yn llawn, cysylltwch â'n tîm heddiw.

Rhif ffôn: **01792 481199**

Cyfeiriad e-bost: **MADE@uwtsd.ac.uk**

www.madecymru.co.uk



*Ar gyfer busnesau cymwys, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.